# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 26 Chwefror 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(115)v5

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**Cynnig am Ddadl Frys**
**Simon Thomas:**

Y dylai'r Cynulliad ystyried ymateb Gweinidogion Cymru i argymhellion Comisiynydd y Gymraeg ar safonau iaith Gymraeg.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Adroddiadau Estyn ar Ferthyr Tudful a Sir Fynwy (45 munud)

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad Estyn ar Merthyr Tudful – *Ar gael yn Saesneg*

Adroddiad Estyn ar Mynwy – *Ar gael yn Saesneg*

Datganiad Cabinet

**4. Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Datblygu cynlluniau ynni cymunedol yng Nghymru (45 munud)**

**5. Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth: Cyfleoedd i bobl anabl gymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru (30 munud)**

**6. Dadl: Cymorth y Llywodraeth i fusnesau newydd yng Nghymru (60 munud)**

**NDM5169 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ystod eang o gyngor a mentrau sy'n hybu ac yn cefnogi entrepreneuriaeth a busnesau newydd yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo:

'Yn mynegi pryder bod nifer o fusnesau newydd yng Nghymru yn dibynnu ar orddrafftiau banc a chardiau credyd fel y prif ffynonellau o arian ar gyfer problemau llif arian gyda gweithgareddau o ddydd i ddydd.'

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu 'Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod' a rhoi 'Yn nodi pa mor bwysig ydyw bod Llywodraeth Cymru yn darparu' yn ei le.

**Gwelliant 3 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod y gyfradd cychwyn busnes ar gyfer y sectorau â blaenoriaeth yn is na'r gyfradd ar gyfer y sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth, ac yn galw ar y llywodraeth i sicrhau bod entrepreneuriaeth yn cael ei hyrwyddo mewn ysgolion a cholegau.

**Gwelliant 4 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried rhinweddau dod â gwahanol fentrau a

chynlluniau cymorth y llywodraeth at ei gilydd er mwyn datblygu dull mwy cyson a chydlynol yng nghyswllt cymorth cychwyn busnes.

**Gwelliant 5 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod y gyfradd dechrau menter yng Nghymru yn dal yn is na chyfartaledd y DU.

**Gwelliant 6 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i ennyn ysbryd entrepreneuraidd o oedran ifanc, ac yn credu y byddai sefydlu mentrau cymdeithasol ym mhob ysgol uwchradd yn sicrhau bod gan ein pobl ifanc sgiliau busnes pwysig.

**Gwelliant 7 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu dull lleol o gynorthwyo busnesau newydd.

**Gwelliant 8 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r effaith gadarnhaol y mae rhyddhad ardrethi busnes yn ei chael ar hybu cychwyn busnesau newydd yng Nghymru, ac yn annog Llywodraeth Cymru i ddarparu rhyddhad ardrethi pellach ar gyfer busnesau bach.

**Gwelliant 9 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai’r cynigion ar gyfer busnes newydd a amlinellir yn ‘Gweledigaeth ar gyfer Buddsoddi yng Nghymru: Buddsoddi Cymru’ gael eu hystyried o ddifrif gan yr adolygiad o fynediad busnesau yng Nghymru at gyllid, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2013.

Gellir gweld 'Gweledigaeth ar gyfer Buddsoddi yng Nghymru: Buddsoddi Cymru' drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.welshconservatives.com/sites/www.welshconservatives.com/files/buddsoddi_cymru_final.pdf

**Gwelliant 10 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo ystod o ffynonellau cyllid ar gyfer busnesau newydd, er enghraifft drwy Undebau Credyd a Mentrau Cyllid Datblygu Cymunedol eraill.

**Gwelliant 11 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo ymhellach gyfleoedd entrepreneuriaeth yng Nghymru i fyfyrwyr sy'n astudio ar lefelau Addysg Uwch ac Addysg Bellach.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 27 Chwefror 2013